**Sian Grainger**

Ymddiheuriadau am yr oediad bach, anawsterau technegol fel arfer, dyw hyd yn oed blwyddyn o gyfnod clo  ddim wedi bod yn ddigon i ni ddod i arfer â'r holl gyfarfodydd Zoom a phopeth arall, felly ymddiheuriadau eto am yr oedi. Mae hyn yn rhywbeth newydd i ni hefyd, nid ydym erioed wedi recriwtio drwy'r llwybr hwn o'r blaen, ond mae gennym raglen brentisiaeth arloesol, newydd, a chyffrous iawn yr oeddem wir eisiau ei thrafod a'i rhannu gyda chi i gyd. Mae nifer o gydweithwyr yma gyda fi heddiw o gyrff sector cyhoeddus ledled Cymru. Mae Emma Doolan, Ann-Marie Harkin yma gyda mi ar hyn o bryd ac rydym yn gobeithio y bydd Darren Garwood o Heddlu Gwent yn ymuno cyn bo hir hefyd. Mae'r Grŵp Datblygu Sgiliau Cyllid wedi lansio rhaglen Cymru Gyfan ac mae'r rhaglen, awn i fwy o fanylder pan fydd Anne-Marie yn siarad, ond cynhelir y rhaglen gan y Grŵp Datblygu Sgiliau Cyllid, sef grŵp o gyrff sector cyhoeddus o bob rhan o Gymru, sy'n ceisio gwella sgiliau cyllid ar draws y sector. Mae'r rhaglen hon yn arloesol, nid yw erioed wedi cael ei wneud o'r blaen, bydd yn rhoi cyfleoedd i chi edrych ar sut mae cyllid y sector cyhoeddus yn gweithio ar draws pob sector yng Nghymru. Rydyn ni'n mynd i siarad ychydig am y rhaglen, ac yna bydd gwybodaeth yn cael ei ddarparu am y cyfleoedd ym mhob un o'r sectorau sy'n recriwtio ar hyn o bryd. Mae gennym rai fideos a darn o gyfweliad yr ydym wedi'i wneud gyda phrentisiaid presennol. Gobeithio y bydd hyn yn rhoi digonedd o wybodaeth i chi, ond mae gennym flwch Holi ac Ateb felly gofynnwch lawer o gwestiynau a'r gobaith yw y byddwn wedyn yn gallu ateb rhai cwestiynau yn ystod y weminar. Rwy'n mynd i ddechrau drwy eich cyflwyno i Ann-Marie Harkin. Mae Ann-Marie yn Gyfarwyddwr Gweithredol yn Archwilio Cymru, ac mae hi hefyd yn Gadeirydd ar y Grŵp Datblygu Sgiliau Cyllid. Ann-Marie, hoffech chi ddweud ychydig mwy wrthym am y rhaglen ac am y fenter yn gyffredinol?

**Ann-Marie Harkin**

Gwych, diolch Sian, a phrynhawn da i chi gyd. Diolch yn fawr am ymuno  â ni heddiw i drafod y rhaglen newydd hon.  Rwy'n tybio eich bod chi gyd yn meddwl 'beth yw hyn i gyd'? Wel, dyma raglen cyfnod penodol o dair blynedd lle byddech yn astudio ar gyfer cymhwyster gyda Cymdeithas y Technegwyr Cyfrifo, neu'r AAT.  Byddwch yn gweithio o fewn un o'r cyrff sector cyhoeddus sy'n rhan o'r cynllun, a byddwch yn aelod o dîm cefnogol a deinamig ac yn gymwys hefyd am ddau secondiad chwe mis i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Felly, byddwch gyda un corff yn bennaf ond â chyfleoedd i dreulio secondiad, mewn cyfnodau o chwe mis, gyda chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Hefyd, yn ystod y tair blynedd, bydd gennych fynediad at gyfleoedd dysgu a datblygu. A byddwch yn cael cefnogaeth gan fentor neu gyfaill. Fel arfer, mae hynny'n golygu rhywun sydd yn yr un rôl â chi'ch hun ond sydd ag ychydig mwy o brofiad. Rydym hefyd yn datblygu modiwl dysgu sector cyhoeddus pwrpasol, a fydd yn gymorth i chi ddysgu llawer mwy am y sector gyhoeddus yn ehangach tra'ch bod chi'n astudio. Er enghraifft, sut mae'n cael ei ariannu, sut mae'n edrych, a'r cyfleoedd a'r heriau y mae'n ei wynebu ar hyn o bryd ac wrth symud ymlaen.  Unwaith y byddwch wedi ennill eich cymhwyster AAT, ein dyhead yw y bydd y rhai ohonoch sydd â diddordeb yn cael cyfle i fynd ymlaen i astudio ar gyfer cymhwyster cyfrifeg proffesiynol gydag un o'r cyrff sector cyhoeddus sy'n cymryd rhan yn y cynllun hwn. Felly, gobeithio, cynllun gwych. Felly, beth

yw manteision y rhaglen? Beth ydym ni’n gobeithio i chi ei gael gan hyn? Wel, ein gobaith yw, wrth ddatblygu'r rhaglen, ein bod ni’n helpu i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr cyllid ar gyfer sector cyhoeddus Cymru. Rydym yn ei weld fel dewis amgen i’r brifysgol, dewis arloesol a chyffrous. Mae'n cynnig rhagolygon gyrfa gwych yn yr hirdymor, yn ogystal â chyfle, fel y dywedais eisoes, i astudio ar gyfer cymhwyster o fri, ac y mae hefyd yn golygu y gallwch ennill cyflog yn ogystal â phrofiad eang ac amrywiol ar draws ystod o gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru. Fel un sydd wedi treulio fy ngyrfa i gyd yn y sector cyhoeddus, dros 30 mlynedd mewn gwirionedd, mae’n rhaid dweud ei fod yn lle gwych i weithio, yn llawn cyfleoedd cyffrous a byddwch yn gweithio gyda chydweithwyr hollol wych. Rwy’n ei argymell yn  llwyr. A chyda hynny rwy'n credu fy mod i wedi dweud digon, mae'n debyg, heblaw i sôn ychydig am yr hyn y byddech yn ei wneud gydag Archwilio Cymru pe baech yn llwyddiannus. Felly rydym ni'n un o'r sefydliadau sy'n cymryd rhan, a gyda ni mi fyddwch yn gweithio'n bennaf i fod yn archwiliwr. Byddech yn astudio, fel y dywedwyd eisoes, ar gyfer y cymhwyster ond byddech yn cael treulio eich secondiadau'n gweithio gyda rhannau o gyrff cyhoeddus eraill, efallai gyda GIG Cymru neu gyda Heddlu Gwent a fydd, gobeithio, yn ymuno â ni nes ymlaen. Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm ac yn cael profiad eang ac amrywiol fel archwilydd ar draws ystod o gyrff yn y sector cyhoeddus. Rhywbeth cyffrous iawn i chi gyd ei ystyried, gobeithio, a gyda hynny rwyf am roi’r awenau yn ôl i Sian.

**Sian Grainger**

Diolch Anne-Marie. Croeso Darren, braf iawn eich gweld.

**Darren Garwood**

Wedi cyrraedd o’r diwedd, ymddiheuriadau.

**Sian Grainger**

Popeth yn iawn, mae'n hyfryd eich cael chi yma. Un o'r pethau y dylem ei ddweud am y rhaglen fwy na thebyg yw mai rhaglen AAT ydyw ac y byddwch yn ei chwblhau ar ddyddiau astudio.  Felly un diwrnod bob wythnos byddech chi'n mynd allan ac yn astudio, ac am y pedwar diwrnod arall byddech chi'n gweithio. Bydd y darparwr hyfforddiant yn eich cefnogi chi hefyd. Bydd y darparwr hyfforddiant yn penodi asesydd i chi a fydd yn cynnal adolygiadau gyda chi bob chwech i wyth wythnos o leiaf, i drafod eich cynnydd. Cewch sgyrsiau gyda'ch rheolwr llinell am eich datblygiad hefyd. Felly mae rhwydwaith cymorth eang yn rhan o gyrraedd y brentisiaeth a chwblhau’r brentisiaeth, nid yw fel petai chi’n astudio ar ei gyfer, ac nid yw'n fath o drefniant cydweithredol ychwaith, mae'n drefniant teiran rhyngoch chi, y cyflogwr, a'r coleg hefyd i’ch cael drwy'r AAT. Rydym wedi gwneud cyfweliad byr gyda rhai o'n prentisiaid presennol i drafod pam y gwnaethant ddewis dod yn brentis. Rwy'n credu bod llawer o gyfleoedd i bobl ifanc allan yna ar y funud, ac yn aml bydd nifer yn dewis y brifysgol heb feddwl. Yr hyn rydym ni’n ei drafod yw llwybr amgen i'r brifysgol, lle gallwch gael cymhwyster o fri a rhagolygon gyrfa clir iawn ar y diwedd. Felly, rydyn ni nawr yn mynd i chwarae darn byr i chi o'r cyfweliadau gydag un neu ddau o'n prentisiaid presennol.

**Alex Swift**

Beth am i chi ddechrau drwy ddweud pam wnaethoch ddewis dod yn brentis?

**Alice Taylor**

Ie, felly mi wnes i Safon Uwch yn yr ysgol. Doedd gen i ddim diddordeb mawr yn y brifysgol. Roeddwn i wedi gwneud mathemateg Safon Uwch, ac fe wnes i fwynhau'r cwrs cyfan, felly dechreuais ymchwilio prentisiaethau a oedd yn ymwneud â chyllid, a chanfod yr un yma. Roeddwn i'n hoffi'r syniad o ennill cymhwyster proffesiynol wrth weithio. Roedd gen i ddiddordeb mewn gwneud prentisiaeth oherwydd eich bod, yn amlwg, yn gweithio, ac mae hynny'n mynd i roi llawer o sgiliau trosglwyddadwy i chi ar gyfer cyfnod diweddarach yn eich gyrfa.

**Alex Swift**

A oedd unrhyw sgiliau penodol yr oedd unrhyw un ohonoch yn arbennig o awyddus i'w hennill wrth i chi drosglwyddo o addysg, o'ch prentisiaeth, i mewn i waith tymor hwy?

**Alice Taylor**

Wel, roedd gen i swydd ran-amser, felly roedd gen i ychydig o sgiliau gwaith tîm a sgiliau cyfathrebu, ond rwy'n tybio mai dim ond ceisio datblygu'r rheini ymhellach oeddwn i, mewn gwirionedd, ar gyfer dechrau swydd go iawn.

**Max Hanlon**

I mi, byddwn yn bendant yn rhoi'r un rhesymau ag Alice. Felly, yn ymarferol, doeddwn i ddim wir eisiau mynd i ddyled drwy fynd i'r brifysgol, ond roeddwn i'n awyddus i ddysgu a datblygu yn ogystal ag ennill fy nghymwysterau. Rwyf hefyd yn teimlo fy mod i'n cael cyfle gwahanol i ddysgu, trwy ddysgu yn y swydd gyda thîm, yn ogystal â phobl mewn rolau tebyg fel fy un i, tra hefyd yn dysgu o'r coleg, ac rwy'n meddwl fod hynny'n werthfawr iawn, ac nid yn rhywbeth a fyddai 100% o ddigwydd pe byddwn wedi mynd i'r brifysgol.

**Sian Grainger**

Felly dim ond pwt bach gan rai o'n prentisiaid presennol i drafod eu rhesymau dros ymuno â'r rhaglen.  Rwy'n mynd i'ch cyflwyno i'm cydweithiwr Emma Doolan o Academi Gyllid GIG Cymru. Mae Emma'n mynd i siarad ychydig am y cyfleoedd yn GIG Cymru. Byddaf yn dod yn ôl i sôn am nifer y bobl a fydd yn recriwtio tua'r diwedd, ond mae tri phrif berson sydd ar hyn o bryd yn hysbysebu'n weithredol, sef Archwilio Cymru, GIG Cymru, a Heddlu Gwent, ac mae holl fanylion ar gyfer ein rolau, sydd i gyd yn rolau tebyg iawn gan eu bod i gyd yn brentisiaethau Cymru Gyfan, i'w cael ar eu gwefannau unigol, ond mi fydda i'n dod yn ôl i drafod ychydig mwy am hynny tua diwedd y weminar. Emma?

**Emma Doolan**

Diolch Sian. Felly, os byddwch yn dewis gwneud cais i'r GIG, byddwch yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr cyllid proffesiynol, rheolwyr gwasanaethau, deiliaid cyllidebau, a chlinigwyr.  Mae'r GIG yn weithle cyffrous a heriol a gallaf, yn sicr, dystio nad oes unrhyw ddau ddiwrnod byth yr un fath. Gallech fod yn darparu gwybodaeth ariannol i reolwyr nyrsio, gan edrych ar fesurau meincnodi ac effeithlonrwydd, neu fod yn rhan o'r gwaith o gefnogi newid gwasanaethau.  A'n gwneud cyfan wrth ystyried gwerth am arian. Bydd y rhaglen yn cynnwys pedwar lot o leoliadau chwe mis yn seiliedig ar rôl, i gynnwys agweddau fel gwasanaethau ariannol, cyfrifon ariannol, rheolaeth ariannol, comisiynu, a chostio. Byddwn yn cynllunio'r lleoliadau i sicrhau eu bod yn cefnogi'r gwaith yr oeddech yn ei wneud yn y coleg. Bydd hyn wir yn helpu i ddod â'ch dysgu yn fyw, ac yn eich helpu i ddeall cyfrifyddiaeth. Mae gan Academi Gyllid GIG Cymru arweinwyr graddedigion a phrentisiaid ac arweinyddion dysgu a datblygu ym mhob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth Iechyd ledled Cymru, felly byddwch wastad yn teimlo eich bod yn cael cefnogaeth lawn. Ochr yn ochr â hyn, bydd gennych fentoriaid a chyfeillion y gallwch droi atynt. Fel y soniodd Ann-Marie yn gynharach, bydd eich cyfaill yn debygol o fod wrthi'n astudio, neu wedi cymhwyso'n ddiweddar, felly byddent yn gallu uniaethu â sut rydych yn teimlo a chynnig help a chyngor i chi. Yn ogystal â hyn, byddwch yn rhan o garfan o grŵp prentisiaid a byddwn yn cynllunio digwyddiadau i chi ddod i ddod i adnabod eich gilydd, ac efallai y byddwch yn y coleg gyda'ch gilydd hefyd. Yn fy marn i, yr agwedd unigryw ar y rhaglen hon yw'r ddau leoliad chwe mis y byddwch yn eu cwblhau mewn sefydliadau sector cyhoeddus gwahanol i'ch sefydliad lletyol. Felly, er enghraifft, pe baech wedi'ch lleoli yn y GIG gallech dreulio chwe mis gydag Archwilio Cymru, gyda Heddlu Gwent neu awdurdod lleol. Byddwch yn dysgu am y modd y mae sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yn gweithredu a byddwch yn ehangu eich rhwydwaith. Gallaf sicrhau y bydd y lleoliadau hyn yn ddiddorol ac yn cynnig profiad amhrisiadwy i chi. Mae'r rhaglen hon wir yn cynnig llwybr amgen i'r brifysgol, gyda rhagolygon gyrfa cyffrous. Er enghraifft, roedd Cyfarwyddwr Cyllid Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn ymgeisydd Safon Uwch i Academi Gyllid y GIG, ac mae bellach yn arwain tîm cyllid mewn Bwrdd Iechyd gyda chyllideb o tua £1.2 biliwn. Ond peidiwch â chymryd fy ngair i amdano, rydym yn awr am glywed gan fy nghydweithiwr Rebecca Richards.

**Rebecca Richards**

Helo fy enw i yw Rebecca Richards a fi yw Cyfarwyddwr Academi Gyllid GIG Cymru. Dechreuais fy ngyrfa flynyddoedd yn ôl fel ymgeisydd Safon Uwch i gynllun hyfforddiant cyllid yma yn GIG Cymru a gynigiodd gyfle i mi astudio ar gyfer fy nghymhwyster proffesiynol tra'n cael profiad o weithio mewn sawl rhan o adran gyllid. Ac ar ôl cwblhau'r cynllun yn llwyddiannus, gallais wneud cais am lawer o rolau ar draws De Cymru a'r GIG, gan arwain at gael fy mhenodi'n Gyfarwyddwr Cyllid ar draws dau sefydliad gwahanol am dros 15 mlynedd. A dyma fi heddiw fel Cyfarwyddwr Academi Gyllid GIG Cymru, ac yn falch o allu cynnig y cynllun tebyg i'r un yr ymunais ag ef flynyddoedd lawer yn ôl. Rydw i wedi cael gyrfa anhygoel. Rwyf wedi gweithio gyda chlinigwyr a rheolwyr anhygoel oedd ag angerdd a brwdfrydedd dros wneud gwelliannau ar ran cleifion a phoblogaeth Cymru, ac rwyf hyd yn oed wedi bod yn ddigon lwcus i allu arddangos peth o'r gwaith hwnnw ar y llwyfan rhyngwladol. Rwyf wir yn credu bod y cynllun a ymunais yr holl flynyddoedd hynny

yn ôl wedi rhoi sylfaen cryf a hyder i mi allu cyfrannu at lwyddiant rhai o'r rhaglenni rwyf wedi ymwneud â nhw. Felly, os oes gennych chi ddiddordeb mewn dilyn gyrfa a fydd yn eich galluogi i ddefnyddio eich sgiliau cyllid i wneud gwahaniaeth i gleifion a phoblogaethau Cymru, yna rwy'n argymell y cynllun hwn i chi.

**Sian Grainger**

Diolch Emma, hyfryd iawn, ac roedd yn wych clywed gan Rebecca hefyd. Nawr, rwyf am gyflwyno Darren Garwood o Heddlu Gwent. Darren, tybiaf fod rhywfaint o gefndir Rebecca yn cyd-fynd fwy na thebyg â'ch profiadau chi hefyd? Mi wna'i roi'r awennau i chi nawr i siarad ychydig amdanoch chi ac am gynnig Heddlu Gwent. Diolch Darren.

**Darren Garwood**

Hyfryd, diolch Sian, a phrynhawn da i chi gyd.  Ac fel y dywedodd Sian, Darren Garwood Pask ydw i, Prif Swyddog Cyllid Comisiynydd Heddlu Troseddu Gwent, yn siarad â chi heddiw ar yr iPhone lleiaf yn y byd, felly gobeithio fy mod i'n dod drosodd yn iawn, a'ch bod yn fy ngweld. Felly, fel dywedodd Sian, rwy'n mynd i siarad yn gryno am fy ngyrfa hyd yma ac, yn bwysig iawn, pam fod rôl staff yr heddlu mewn plismona yn ddewis ardderchog ar gyfer eich gyrfa.  Felly, o ran fy nhaith, Byddai rhaglen Prentisiaethau Cyllid Sector Cyhoeddus Cymru Gyfan, pe bai wedi bodoli yn 1989, yn rhywbeth y byddwn yn sicr wedi'i ystyried. Er i mi sefyll a phasio tair Safon Uwch, doeddwn i ddim eisiau mynd i'r brifysgol. Fy hoff bynciau Safon Uwch oedd daeareg a hanes, ond doeddwn i ddim mor hoff o fathemateg, yn eironig, ond doeddwn i ddim eisiau dilyn gradd na gyrfa yn y meysydd hynny. Bryd hynny, roeddwn i eisiau dechrau ennill arian, treulio amser gyda fy ffrindiau a fy nghariad, a pharhau i chwarae pêl-droed i'm clwb lleol.  Felly dechreuais weithio gyda Llywodraeth Cymru a'n ffodus iawn ces fy nyrchafu'n eithaf buan i rôl yn eu hadran gyllid. Roeddwn i'n mwynhau gweithio gyda rhifau a holl gyfriniaeth cyllid a chyfrifyddiaeth. Y 'dark arts', fel petai. Ces fymryn o lwc pan ofynnais am gael fy noddi i astudio cymhwyster ACCA. Mae gen i ddyled fawr o ddiolchgarwch i Bennaeth Cyllid Llywodraeth Cymru am fy nghefnogi, a hen hanes yw'r gweddill. Fy swydd gyntaf yn Llywodraeth Cymru wnaeth osod cwys fy ngyrfa o wasanaethu'r cyhoedd, a does dim yn rhoi mwy o foddhad i mi na chyflawni ar ran y cyhoedd. Rwyf wedi gweithio yn y GIG, Asiantaeth yr Amgylchedd, Heddlu Gwent a bellach Swyddfa'r Heddlu a Chomisiwn Troseddu Gwent, gan ddringo'r ysgol broffesiynol ym maes cyllid bob tro. Rwyf wedi bod yn eithriadol o lwcus o gael yr hwb yna ar y cychwyn, a dyna sydd wedi fy arwain yma atoch chi heddiw. Felly mae Rhaglen Prentisiaethau Cyllid Sector Cyhoeddus Cymru Gyfan yn golygu nad oes angen dibynnu ar lwc bellach, dyma'n rhodd ni i ddarpar Brif Swyddogion Cyllid y dyfodol. Yn ail, pam fod rôl staff yr Heddlu gyda Heddlu Gwent yn ddewis da? Wel ymunais â Heddlu Gwent yn 2005, gyda'r bwriad o dreulio dwy flynedd yno cyn symud ymlaen. 16 mlynedd yn ddiweddarach, ac mae bob dydd yn  ddiwrnod gwahanol, a phob diwrnod yn ddiwrnod ysgol. Dyma'r swydd fwyaf cyffrous i mi ei chael erioed, 16 mlynedd ers ei dechrau. Ble arall allwch chi weithio yn lleol ledled Gwent, yn rhanbarthol ledled Cymru, ac yn genedlaethol trwy'r DU, a hynny oll ar yr un pryd? Felly, o ran yr agwedd leol, rwyf am drafod ar yr hyn yr ydym yn ei wneud yng Ngwent. Gallwch wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r cymunedau rydych yn eu gwasanaethu bob dydd.

Gallwch helpu pobl sy'n dod atoch ar awr gyfyng, a gallwch weithio gyda llu o bartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, partneriaid yn y sector preifat a phartneriaid yn y sector gwirfoddol ar draws Gwent, ar lu o fentrau a materion cynrifo. Ar sail ranbarthol, ledled Cymru, gallwch cydweithio â'r tri heddlu Cymreig arall i ddarparu gwell gwasanaethau i gymunedau, fel ein Huned Arfau Tanio ar y Cyd neu ein huned Ymchwilio Gwyddonol ar y Cyd. A gallwch weithio gyda Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus datganoledig eraill i gyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gwneud Cymru yn lle gwych i fyw,  i weithio, ac i ymweld. Ac ar sail genedlaethol, gallwch weithio'n gydlynol gyda'r heddluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr er mwyn cyfrannu at drefniadau diogelwch cenedlaethol a hyrwyddo gweithio trawsffiniol. Gallwch weithio yn gydlynol gyda heddluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr i lobio newidiadau deddfwriaeth Llywodraeth y DU neu i gael mwy o arian ar gyfer plismona. Ac mae hyn i gyd yn golygu ei fod faes cyffrous iawn o fewn plismona.  Mae Heddlu Gwent yn fusnes gwerth £165 miliwn, gydag oddeutu 1400 o swyddogion yr heddlu, 150 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, a tua 700 o aelodau o staff yr heddlu. Mae gennym geir, beiciau modur, hofrenyddion, cŵn, pethau cyffrous iawn. Ond yn bwysicaf oll, pan rwy’n gweld heddwas ar y stryd, neu’n clywed seiren yr heddlu o'm swyddfa, mae'n fy ngwneud yn falch, yn weithiwr cyllid proffesiynol balch iawn. Felly gobeithio bod hynny'n rhywbeth i chi gnoi cil arno, heb oedi dim mwy, dyma roi’r awenau yn ôl i Sian. Diolch yn fawr iawn.

**Sian Grainger**

Dw i ar mute.  Ydw i dal ar mute? Na. Ardderchog diolch Darren, rwyt ti wedi fy ysbrydoli i ymuno â'r heddlu os unrhyw beth, roedd hynna’n wych. Rydyn ni nawr yn mynd i siarad ychydig am sut i wneud cais. Fel y dywedais yn gynharach, mae tri phrif berson sy'n mynd ati i recriwtio ar hyn o bryd, Heddlu Gwent, Academi Gyllid GIG Cymru, ac maen nhw’n recriwtio ar ran yr holl fyrddau iechyd lleol felly mae yna naw swydd wag o fewn GIG Cymru. Bydd pum swydd wag o fewn Archwilio Cymru, un yng Ngorllewin Cymru, un yng Ngogledd Cymru, a thri o fewn ardal fras De Ddwyrain Cymru, a bydd o leiaf un swydd wag gyda Heddlu Gwent. Yr hyn rydym wedi ceisio'i wneud fel corff cydweithredol o bartneriaid gyda'n gilydd yw edrych ar sut y gallwn greu proses ymgeisio sydd yn ddi-dor, o ystyried bod gennych ddewis o sefydliadau. Felly beth rydyn ni wedi'i wneud yw dod i gytundeb ar ba feini prawf cymhwysedd a sgiliau i chwilio amdanynt. Rydym yn chwilio am bobl sy'n frwdfrydig, yn ymroddedig, a’n angerddol dros ddysgu. Ond yn angerddol hefyd am wneud gwahaniaeth i wasanaethau cyhoeddus. Rydym ni oll yma wedi bod yn weision cyhoeddus ers blynyddoedd lawer, ac rydym oll yn teimlo'n gryf iawn am yr angen i sicrhau a chynnal a gwella ein gwasanaethau cyhoeddus ac rydym eisiau'r prentisiaid y byddwn yn eu cyflogi rannu’r un agwedd. Does dim rhaid i chi fod yn ag angerdd dros rifau, fel y dywed Darren, ond mae'n rhaid i chi ddangos  gallu â rhifau a bod yn gyfforddus â rhifau. Byddwn yn eich hyfforddi a'ch cefnogi gyda rhai o'r sgiliau mwy technegol ond mae angen i chi fod yn gyfforddus â rhifau. Mae angen i chi weithio’n dda mewn tîm, mae pob un ohonom wedi clywed straeon bwysigrwydd gwaith tîm, mae'n rhaid i chi allu gweithio’n dda maewn tîm. Rydym i gyd yn chwilio am bobl sydd â dyheadau, felly rydym yn chwilio am fyfyrwyr Safon Uwch, ac rydym yn gwerthu hyn, fel y clywsoch, fel llwybr amgen i’r brifysgol, un â dilyniant gyrfa clir iawn, at raglen graddedigion gobeithio i wneud ACCA, CIPFA neu ACA gydag un o'r cyrff partner sy'n

cymryd rhan. Mae'r holl brosesau ymgeisio yr un fath yn eu hanfod. Bydd rhaid i chi wneud datganiad personol, felly rydym yn gobeithio y gallwch ysgrifennu un datganiad personol a’r un beth y bydd angen ei newid fydd enwau Archwilio Cymru, Heddlu Gwent a GIG Cymru, ac y bydd modd i chi torri a gludo’r rhannau i bob un o'r ffurflenni cais. Mae rhai o’r dyddiadau cau yn amrywio, ond mae'r holl ddyddiadau cau ym mis Mehefin. Mae’r cyntaf ar y trydydd o Fehefin a’r  gweddill yn hwyrach yn y mis, ac yna bydd dyddiadau asesu ar ddiwedd Mehefin ac ym mis Gorffennaf. Byddwn chi’n cychwyn ar ddechrau mis Medi. Byddwch yn treulio tipyn o’ch cyfnod cynefino yn cael eich cyflogi gan eich sefydliad, ond bydd llawer o'r cynefino'n cael ei wneud ar y cyd hefyd. Rydym am i chi deimlo'n rhan o garfan sy'n ymestyn y tu hwnt i'ch prif gyflogwr, ac rydym yn awyddus i wneud hynny yn benodol oherwydd y byddwch yn gweithio ym mhob sefydliad arall fel rhan o'r broses. Felly rydym am i bob un ohonoch deimlo eich bod yn llawer mwy na phrentis Audit Wales neu GIG yn unig, rydym am i chi deimlo'n rhan o raglen Cymru Gyfan. Felly bydd llawer o weithgareddau ar y cyd, er mwyn trafod y cynllun gyda chi, i siarad â chi am AAT mewn mwy o fanylder, ond hefyd i chi ddod i adnabod pobl a datblygu rhwydweithiau ar draws y sector cyhoeddus. Mae'n gyfle cyffrous, rydym ni’n llawn cyffro. Gobeithio ein bod wedi llwyddo cyfleu ein brwdfrydedd a'n cyffro i chi i gyd y prynhawn yma. Cyn i mi gloi, rwyf am holi fy nghydweithwyr a oes ganddynt unrhyw beth arall yr hoffent ei ychwanegu cyn i ni ddod i ben? Na? Rwy’n gweld bod nifer o gwestiynau wedi'u gofyn drwy gydol y broses. Mae un o'r cwestiynau a ofynnwyd yn ymwneud â chymhwysedd, o ran y bobl hynny sy'n â diddordeb yn y rhaglen, ond sydd â phrofiad AAT blaenorol, yn anffodus ni fyddwch yn gymwys ar gyfer y rhaglen benodol hon. Felly mae'n ddrwg gen i am hynny, ond dwi'n gwybod mai dyna un o'r cwestiynau a ofynnwyd, ac rwy'n credu ei fod yn un eithaf pwysig i'w drafod. Mae llawer o fanylion ar gael ar ein gwefannau. Mae'r holl hysbysebion hefyd yn cynnwys manylion cyswllt, fel bo modd i bobl gysylltu hefyd. Felly, gobeithio y bu’r weminar hon yn ddefnyddiol i chi. Gobeithio y bu’n ddiddorol, a'r cyfan sydd gen i  i’w ddweud nawr yw diolch yn fawr. Diolch yn fawr iawn, a hwyl fawr.